**PWYLLGOR SAFONAU**

**(Remotely Via Teams)**

| **Aelodau sy'n Bresennol:** | **Dydd Mawrth, 7 Medi 2021** |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd C.L.Jones** |
| **Is-gadeirydd:** | **Cynghorydd B.Richards** |
| **Cynghorwyr**: | L.Fleet, S.E.Freeguard a/ac D.Keogh |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | C.Griffiths a/ac T.Davies |
| **Gwahoddedigion y Cabinet:** | Cynghorwyr |

---

1. **CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

Achubodd y Cadeirydd ar y cyfle i groesawu Kathryn Charles, Clerc Cyngor Tref Castell-nedd a Wendy Thomas, Clerc Cyngor Tref Coed-ffranc a ymunodd â'r cyfarfod ar gyfer Eitem 5 ar yr Agenda.

2. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

**PENDERFYNWYD:** Cadarnhau bod cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 27 Ionawr 2021 yn gofnod gwir a chywir o'r cyfarfod.

3. **MATERION CÔD YMDDYGIAD CYNGHORAU TREF A CHYMUNED**

Nododd yr Aelodau farn Clercod y Cyngor Tref ynghylch eu perthynas â'r Cyngor Bwrdeistref Sirol. Dywedodd y swyddogion y byddai'r materion a godwyd yn cael eu cyflwyno i'r Fforwm Cyswllt Cynghorau Tref/Cymuned i'w trafod.

**PENDERFYNWYD** y byddai'r adroddiad yn cael ei nodi.

4. **ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU 2020-2021**

PENDERFYNWYD: Argymell Adroddiad Blynyddol drafft y Pwyllgor Safonau i'r cyngor llawn i'w gymeradwyo.

5. **CRYNODEB O'R ACHOSION YR YMGYMERWYD Â HWY GAN OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU**

**PENDERFYNWYD** y byddai'r adroddiad yn cael ei nodi.

6. **ARWEINIAD AR Y CÔD YMDDYGIAD GAN OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU**

**PENDERFYNWYD** y byddai'r adroddiad yn cael ei nodi.

7. **Y CYNG. C GALSWORTHY - CANIATÁU GOLLYNGIAD MEWN PERTHYNAS Â MATERION CYFLOGAETH**

Nododd yr aelodau y byddai'r cais hwn am ollyngiad, pe bai'n cael ei ganiatáu, yn rhedeg ar gyfer gweddill y cyngor etholedig hwn, tan gyfarfod cyntaf y Pwyllgor Safonau yn dilyn Cyfarfod Blynyddol y cyngor yn 2022.

**PENDERFYNWYD**: y dylid caniatáu gollyngiad i'r Cynghorydd Charlotte Galsworthy siarad a phleidleisio ar faterion sy'n ymwneud â busnes Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, gan gynnwys materion personél perthnasol fel y nodwyd ym mharagraff 11 yr adroddiad a ddosbarthwyd.

8. **CANIATÁU GOLLYNGIAD O DAN A81(4) DEDDF LLYWODRAETH LLEOL 2000**

Nododd yr aelodau y byddai'r cais hwn am ollyngiad, pe bai'n cael ei ganiatáu, yn rhedeg ar gyfer gweddill y cyngor etholedig hwn, tan gyfarfod cyntaf y Pwyllgor Safonau yn dilyn Cyfarfod Blynyddol y cyngor yn 2022.

PENDERFYNWYD: y dylid caniatáu gollyngiad i'r Cynghorydd Nigel Hunt siarad ond nid i bleidleisio ar yr holl faterion sy'n ymwneud â chanol tref Port Talbot, yn enwedig mewn perthynas â Chanolfan Siopa Aberafan, amodau

manwerthu a datblygiadau yng nghanol tref Port Talbot, fel y nodwyd ym mharagraff 8 yr adroddiad a ddosbarthwyd.

**CADEIRYDD**